# WILLIAMS, PENRY (1800 - 1885), peintiwr



**Enw:** Penry Williams
**Dyddiad geni:** 1800
**Dyddiad marw:** 1885
**Partner:** John Gibson
**Rhiant:** William Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** peintiwr
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth
**Awdur:** Megan Ellis

Mab William Williams, saer cerrig o Ferthyr Tydfil, a bedyddiwyd ef yno 2 Chwefror 1800. Bu'n ddisgybl i Fuseli yn ysgolion yr Academi Frenhinol ac enillodd un o fathodau arian Cymdeithas y Celfyddydau yn 1821. Ymsefydlodd yn Rhufain yn 1827 a daeth yn gyfeillgar â John Gibson yno.

Etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas Peintwyr mewn Dyfrlliw yn 1828. Dangoswyd nifer o'i ddarluniau yn arddangosfeydd y Sefydliad Prydeinig a Chymdeithas yr Artistiaid Prydeinig a chynifer a 34 yn arddangosfeydd yr Academi Frenhinol rhwng 1822 a 1869, gan gynnwys darluniau o John Gibson a'r arglwyddes Charlotte Guest. Darluniau o fywyd yn Rhufain a golygfeydd yn yr Eidal yw mwyafrif ei waith, a cheir amryw ohonynt yn yr Oriel Genedlaethol, yr Amgueddfa Brydeinig, ac Amgueddfa South Kensington. Ysgythrwyd nifer o'i weithiau. Bu farw yn Rhufain 27 Gorffennaf 1885.

Nodyn golygyddol 2021: Cymar Penry Williams yn Rhufain oedd y cerflunydd John Gibson.

## Awdur

**Megan Ellis**, (1906 - 2001)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527–1911* (1912)

adysgrifau esgobaeth Llandaf

H. Blackwell, NLW MS 9277A: A Dictionary of Welsh Biography

## Darllen Pellach

Derrick Pritchard Webley, *Cast to the winds* (Aberystwyth 1997)

Erthygl Wicipedia: Penry Williams

## Gweithiau

LlGC: Book of drawings by Penry Williams

Casgliad y Werin Cymru: Penry Williams - Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa

ArtUK: Penry Williams

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 315943654

Wikidata: Q12065586

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu